Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

*This project is funded by the UK government through the UK Shared Prosperity Fund.*

# Amlinelliad o'r Prosiect ac Ymarferoldeb





Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Amlinelliad o'r Prosiect

Meddyliwch am amlinelliad o brosiect fel glasbrint ar gyfer eich prosiect. Mae'n helpu i grynhoi prif elfennau eich prosiect ac yn ffordd o gadw eich prosiect ar y trywydd iawn.

Mae angen llunio amlinelliad o bob prosiect i sicrhau bod nodau'r prosiect yn glir a'i bod yn bosibl cyflawni'r llwybr tuag at gyflawni'r nodau hynny.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio amlinelliad o brosiect, dylech gynnal rownd gychwynnol o waith dichonoldeb.

Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu cyn ac yn ystod yr astudiaeth ddichonoldeb yn helpu i lenwi dogfen amlinellol y prosiect.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Astudiaeth Ddichonoldeb

Mae angen gwneud ychydig o waith dichonoldeb ymlaen llaw ar gyfer pob prosiect i ddangos ac i brofi hygrededd y syniad arfaethedig.

Dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod astudiaeth ddichonoldeb fod yn sail i amlinelliad eich prosiect a dylai helpu i roi hyder bod y prosiect arfaethedig yn bosibl.

Mae gwneud gwaith dichonoldeb yn helpu i wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn llwyddiannus
- Deall y ffactorau sy'n hanfodol i lwyddiant
- Asesu ymarferoldeb prosiect arfaethedig
- Rhag-weld heriau a risgiau
- Asesu fforddiadwyedd



# Rhestr Wirio Dichonoldeb

## 1. Dichonoldeb Technegol

- A ydy'r dechnoleg rydych chi am ei defnyddio ar gael ac yn gyfarwydd?
- Ai dyma'r dechnoleg iawn? A ydych chi wedi edrych ar amrywiaeth o opsiynau?
- A oes gennych chi'r arbenigedd technegol i allu rhoi'r prosiect ar waith?
- A oes gennych chi'r holl seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r prosiect?

## 2. Dichonoldeb Gweithredol

- A fydd y prosiect yn gwella pethau neu'n datrys y broblem a nodwyd?
- A oes cynllun o ran sut y bydd y prosiect hwn yn parhau ar ôl i'r seilwaith gael ei osod?

## 3. Dichonoldeb Ariannol

- A ydy cyllideb y prosiect yn realistig ac wedi'i chynllunio'n dda?
- A oes digon o arian ar gael ar gyfer y prosiect? (Sylwch: efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y gwaith cyn hawlio'r cyllid)
- A yw'n werth gwario'r arian hwn i gyflawni'r manteision? A fydd yn rhoi gwerth am arian?

## 4. Dichonoldeb y Farchnad

- A oes galw am y prosiect hwn? A ydych chi wedi ymgysylltu â'r gymuned ehangach?
- A ydy'r prosiect yn cyflawni nodau strategol ehangach? (e.e. mynd i'r afael â thlodi, lleihau allyriadau carbon, mynd i'r afael ag unigrwydd, cefnogi pobl ifanc ac ati)

## 5. Dichonoldeb Cyfreithiol

- A ydych chi wedi cael y caniatâd priodol i gyflawni'r prosiect hwn?
  - Caniatâd cynllunio
  - Perchnogaeth ar y cyfleusterau sydd eu hangen
  - Awdurdod i gyflawni'r prosiect
- A ydy'r gweithdrefnau a'r polisïau priodol yn eu lle gennych chi?
  - Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Diogelu, Iaith, Anabledd, Caffael ayb

# Rhestr Wirio Dichonoldeb

### 6. Dichonoldeb yr Amserlen

- A oes llinell amser glir gyda cherrig milltir realistig?
- A oes gennych chi'r adnoddau a'r bobl â'r sgiliau priodol i fodloni'r terfynau amser?
- A ellir cwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen a ddymunir?

### 7. Dichonoldeb Amgylcheddol/Cymdeithasol

- A ydych chi'n deall effaith amgylcheddol y prosiect? A yw'n briodol?
- A ydy'r prosiect yn gymdeithasol gyfrifol? A yw hyn wedi cael ei brofi gyda'r gymuned?

### 8. Asesu Risg

- A ydych chi wedi nodi'r risgiau posibl, ac a oes cynllun lliniaru?
  - Risgiau ariannol (mynd dros y gyllideb, colled ariannol, llif arian)
  - Methiannau technegol (y dechnoleg ddim yn briodol neu ddim ar gael)
  - Materion yn ymwneud ag adnoddau (pobl allweddol yn gadael/ddim ar gael)
- A oes gennych chi gynlluniau wrth gefn cadarn ar waith rhag ofn y bydd methiannau?

### 9. Dichonoldeb o ran Adnoddau

- A oes gennych chi'r adnoddau a'r sgiliau dynol angenrheidiol i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus?
- A ydy'r offer, y cyfarpar neu'r deunyddiau angenrheidiol ar gael yn rhwydd (ac yn fforddiadwy)?
- A oes gan y sefydliad yr adnoddau i gefnogi'r prosiect ar hyn o bryd?

**Fe ddylech chi allu ateb "ie" yn hyderus i'r holl gwestiynau a dylai fod gennych chi ddogfennau cysylltiedig i gefnogi'r honiad hwn.**

**Os oes gennych chi unrhyw amheuon neu os ydych chi'n ansicr am unrhyw ddarnau o wybodaeth sydd eu hangen, yna bydd angen i chi wneud mwy o waith i ddatblygu'r dogfennau, y gweithdrefnau neu'r mesurau lliniaru priodol.**

# Templed ar gyfer Amlinelliad o’r Prosiect

Crynodeb o'r Prosiect

Amcanion y prosiect

Cwmpas y Prosiect

Cost y Prosiect

Manteision y Prosiect

Amserlen y prosiect

Risgiau’r Prosiect

Tîm y Prosiect

Mae’n arfer da datblygu amlinelliad o brosiect i helpu i grynhoi eich prosiect cyn trafod â chyllidwyr neu randdeiliaid posibl.

Mae hefyd yn ffordd dda o adolygu’r holl wybodaeth sydd gennych chi a nodi unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth.

Os ydych chi wedi cynnal yr adolygiad dichonoldeb, dylai fod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau amlinelliad o’r prosiect gennych chi.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Amcanion y prosiect

**Amcanion y prosiect ydy'r pethau rydych chi'n bwriadu eu cyflawni erbyn diwedd eich prosiect - pam ydych chi'n gwneud hyn yn y lle cyntaf?**

Fe allwch chi (ac mae'n debyg y dylech chi!) gael mwy nag un amcan, ond os oes gennych chi fwy na 4 neu 5, efallai fod cwmpas eich prosiect ychydig yn rhy eang?

Mae angen i'r amcanion fod yn rhai CAMPUS;

- cyraeddadwy
- amserol
- mesuradwy
- penodol
- synhwyrol/uchelgeisiol

Mae angen i chi gofio nad yw'r prosiect, o reidrwydd, yn gorffen pan mae'r 'seilwaith' rydych chi wedi talu amdano yn ei le.

# Cwmpas y Prosiect

**Mae cwmpas prosiect yn bwysig ar gyfer pennu ffiniau'r prosiect - mae'n diffinio beth fydd y prosiect yn ei gynnwys (a beth fydd y prosiect ddim yn ei gynnwys!).**

Dylai cwmpas prosiect ddiffinio beth mae angen i chi ei wneud i gyflawni amcanion y prosiect.

Bydd hyn yn helpu i osgoi 'newidiadau bach ond parhaus i'r cwmpas' sy'n golygu bod pethau ychwanegol na gynlluniwyd ar eu cyfer yn gallu dod i mewn i'r prosiect, ac eitemau hanfodol neu graidd yn gallu cael eu hanghofio neu eu hepgor.

Mae'n bosibl rhannu'r cwmpas yn elfennau craidd, dymunol a dewisol, sy'n gallu eich helpu i ganolbwyntio ar yr agweddau allweddol.

- Craidd: mae elfennau craidd yn golygu pethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y prosiect, neu ni fydd y prosiect yn gweithio.
- Dymunol: pethau a fyddai'n ychwanegu at y prosiect ac y gellid eu hychwanegu os gellir eu fforddio
- Dewisol: pethau a fyddai'n ychwanegu ychydig bach at y prosiect ac y gellid eu hychwanegu os gellir eu fforddio

# Cost y Prosiect

**Yn syml iawn, faint fydd eich prosiect yn ei gostio?**

Mae angen i chi feddwl am gostau datblygu'r prosiect ymhellach, costau'r ymyriad (e.e. offer neu waith adeiladu) A'R costau rhedeg sy'n deillio o hynny sy'n angenrheidiol i'ch helpu i gyflawni amcanion y prosiect.

Dylech allu darparu amcangyfrifon, sy'n seiliedig ar enghreifftiau tebyg blaenorol, dyfynbrisiau gan gontractwyr a/neu ymgynghorwyr neu gyfrifiadau sydd wedi'u mynegi'n glir.

Mae'n bwysig cynnwys dadansoddiad ariannol o oes y prosiect a sicrhau bod gennych ddigon o lif arian yn eich sefydliad.

Bydd y rhan fwyaf o grantiau yn cael eu talu ar sail ôl-daliadau, felly bydd angen i chi allu talu ymlaen llaw a hawlio'r arian yn ôl yn ddiweddarach.

# Manteision y Prosiect

**Manteision y prosiect ydy'r gwelliannau y gellir eu mesur sy'n deillio o'r prosiect.**

Dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng manteision y prosiect ac amcanion y prosiect. Os ydych chi'n gwybod beth rydych chi am ei gyflawni, y fantais ydy canlyniad mesuradwy hynny.

Er enghraifft; os mai amcan y prosiect ydy lleihau allyriadau carbon, y fantais yw bod xxx yn llai o $CO_2$ yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, gan gyfrannu at nodau a thargedau Sero Net cyffredinol.

Pan fyddwch chi'n datblygu'r manteision, dylech hefyd feddwl am sut rydych chi'n bwriadu tracio a mesur y manteision drwy gydol oes y prosiect, gan gofio efallai na fydd y manteision yn cael eu gwireddu ar unwaith.

# Amserlen y prosiect

**Mae'n bwysig nodi amlinelliad clir o amserlen eich prosiect. Faint o amser mae'n mynd i'w gymryd?**

Wrth nodi amserlen y prosiect, mae'n bwysig ystyried pa mor hir y bydd yn ei gymryd i fanteision y prosiect gael eu gwireddu a sicrhau bod gennych gynllun yn ei le i gadw golwg arnyn nhw.

Dylech hefyd nodi ar beth mae'r amcangyfrifon amser hyn yn seiliedig. Sut ydych chi'n gwybod faint o amser mae pethau'n mynd i gymryd? Ydy hyn oherwydd bod gennych chi brofiad blaenorol, neu ydy o ar sail prosiectau tebyg, neu ar sail mewnbwn arbenigol?

Dylech hefyd geisio cynnwys rhywfaint o amser ar gyfer unrhyw or-redeg yn eich prosiect, efallai drwy dalgrynnu pethau i fyny er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rhaglen os oes oedi.

Un o'r ffyrdd gorau o ddangos a monitro amserlenni prosiectau ydy drwy Siart Gantt.

| | Wythnos/Mis/Chwarter 1 | Wythnos/Mis/Chwarter 2 | Wythnos/Mis/Chwarter 3 | Wythnos/Mis/Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd 1 | | | | |
| Gweithgaredd 2 | | | | |
| Gweithgaredd 3 | | | | |
| Gweithgaredd 4 | | | | |

# Risgiau'r Prosiect

Mae gwybod beth yw'r risgiau a'u monitro yn elfen hanfodol o bob prosiect. Mae'n bwysig ystyried y prif risgiau i'r prosiect, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymddangos yn annhebygol. Drwy feddwl am y prif risgiau, mae prosiectau yn gallu bod yn rhagweithiol ynghylch rheoli'r risgiau hynny, gan helpu i leihau'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n codi a'u heffaith.

Y ffordd y mae hyn yn cael ei wneud fel arfer ydy drwy lunio cofrestr risg a'i monitro yn barhaus. Mae cofrestr risg fel arfer yn cofnodi'r risg, y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, yr effaith y gallai'r risg ei chael ar y prosiect a chamau lliniaru arfaethedig i leihau naill ai'r tebygolrwydd neu'r effaith.

| | Risg | Canlyniad | Tebygolrwydd | Effaith | Risg Gyffredinol | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Offer arfaethedig yn ddrutach na'r swm a glustnodwyd ar eu cyfer yn y gyllideb wreiddiol | Cynnydd yng nghostau'r prosiect ac felly nid oes modd cyflawni'r prosiect | 1-5 | 1-5 | Tebygolrwydd wedi'i luosi â'r effaith<br>Graddio:<br>Coch os ydy'r cyfanswm yn fwy na 12<br>Oren os ydy'r cyfanswm rhwng 5 a 12<br>Gwyrdd os ydy'r cyfanswm yn llai na 5 | Cofiwch gynnwys cyllideb wrth gefn a phrofi'r farchnad wrth i'r gyllideb gael ei chyflawni |
| 2 | | | | | | |
| 3 | | | | | | |

# Tîm y Prosiect a Llywodraethu

**Dylai'r adran hon ymdrin â phwy sy'n ymwneud â'r prosiect a beth yw eu rolau penodol.**

Dylai hefyd gynnwys setiau sgiliau'r rhai sy'n ymwneud â'r prosiect, a oes ganddyn nhw brofiad perthnasol ac, yn bwysig, a oes ganddyn nhw'r amser i gyflawni eu rolau..

Dylai'r adran hon hefyd nodi os ydych chi wedi cael unrhyw gymorth allanol, beth oedd y cymorth hwnnw a gan bwy y daeth gan fod gwybod bod y prosiect wedi cael ei ddilysu'n allanol a'ch bod wedi cael cefnogaeth allanol yn gallu cryfhau prosiect yn aml.

Elfen olaf, ond pwysig iawn yr adran hon, yw amlinellu'r prosesau llywodraethu a rheoli sydd ar waith, a fydd yn cael eu defnyddio i reoli'r prosiect.

Dylai hyn gynnwys amlinelliad o strwythur y sefydliad, y prosesau gwneud penderfyniadau, pa mor rheolaidd mae'r bwrdd/byrddau'n cwrdd, y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol.

- ✓ Polisi Cyfle Cyfartal
- ✓ Polisi Iaith Gymraeg
- ✓ Polisi Iechyd a Diogelwch
- ✓ Polisi Diogelu ac Amddiffyn
- ✓ Polisi Diogelu Data
- ✓ Polisi Amgylcheddol